



Beth sy'n gweithio

Rhwystro plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais

Hydref 2020

Cynnwys

Cyflwyniad i'r Gronfa Gwaddol Ieuencid a sut i weithio gyda ni	3
Yr hyn a wyddom am blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gymryd rhan mewn troseddau.....	4
i) Beth sy'n gwneud plant a phobl ifanc mewn perygl o gymryd rhan mewn troseddau?	4
ii) Beth sy'n diogelu plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau?	6
Pa ddulliau gweithredu sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau?	8
i) Beth sy'n gweithio?.....	8
ii) Beth sy'n addawol?.....	9
iii) Lle mae canlyniadau cymysg?	10
iii) Beth sydd ddim yn gweithio?	11
Gwybodaeth bellach.....	12

Cyflwyniad i'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid a sut i weithio gyda ni

Amdanom ni

Mae'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid yn elusen gyda £200 miliwn o waddol a chenhadaeth sy'n cyfrif. Rydym yma i rwystro plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais. Gwnawn hyn drwy ganfod beth sy'n gweithio a datblygu mudiad i roi'r wybodaeth hon ar waith.

Y wybodaeth hon

Cafodd y Gronfa Gwaddol Ieuenctid ei sefydlu yn 2019. Rydym ar ddechrau taith deng mlynedd. Rydym wedi datblygu'r wybodaeth hon fel y cam cyntaf i'ch helpu i arwain ymdrechion lleol i rwystro plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trais.

Rydym wedi crynhoi'r hyn a wyddom eisoes am wahanol raglenni a dulliau gweithredu a'u heffeithiolrwydd yn lleihau trais ieuenctid. Rydym yn gobeithio y bydd yn fan cychwyn da i ddechrau meddwl am beth allai weithio.

Yr adnodd tystiolaeth hwn yw'r cyntaf o lawer y byddwn yn eu creu. Yn 2021, byddwn hefyd yn lansio'r fersiwn cyntaf o'n Pecyn Offer. Bydd yn adnodd ar-lein hwylus a fydd yn esbonio mwy am yr hyn a wyddom. Bydd yn crynhoi llawer o'r dystiolaeth sydd eisoes ar gael ar wahanol ddulliau gweithredu, i'ch cynorthwyo pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau am eich ardal leol chi.

Gweithio gyda ni

Er bod y dystiolaeth bresennol yn ddefnyddiol, ond mae angen i ni wybod llawer mwy am beth sy'n gweithio. Dyna pam y byddwn yn ariannu a gwerthuso prosiectau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn deall a yw dulliau gweithredu addawol yn gweithio ai peidio. A byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau pobl ifanc a phobl ifanc eu hunain, i gael dealltwriaeth ddofn o'u bywydau.

Ond gwyddom y bydd ein hymdrech i ddeall beth sy'n gweithio ond yn ddefnyddiol os caiff ei roi ar waith. Dyna pam ein bod yn awyddus i weithio gyda chi. Rydym eisieu datblygu rhwydweithiau ar draws y sector ieuenctid, addysg, gwasanaethau plant, yr heddlu, sefydliadau cymunedol a mwy. Byddwn yn eich cynorthwyo i rannu eich gwybodaeth gydag eraill. A byddwn yn creu mudiad o bobl sy'n ymrwymedig i gyflenwi'r dulliau gweithredu sy'n gweithio.

Gyda'ch cymorth chi, rydym yn hyderus y gallwn leihau'r nifer o bobl ifanc y mae eu bywydau'n cael eu dinistrio drwy gymryd rhan mewn troseddau treisgar.

I gael gwybod mwy am ein gwaith a sut y gallwch chi gymryd rhan, anfonwch e-bost atom yn hello@youthendowmentfund.org.uk




Beth a wyddom am blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gymryd rhan mewn troseddau?

Beth sy'n rhoi plant a phobl ifanc mewn perygl o gymryd rhan mewn troseddau?

Yr hyn a wyddom: Mae yna lawer o bethau ym mywyd plentyn neu berson ifanc sy'n golygu eu bod yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan mewn troseddau. Gallai fod yn wrthdaro teuluol, mynd i ysgol lle mae cyfradd uchel o absenoldeb neu lawer o ansefydlogrwydd yn eu cymuned leol. Gelwir y pethau hyn yn aml yn ffactorau risg.

Gwyddom fod nifer fach o blant yn gysylltiedig â'r mwyafrif o droseddau a thrais ieuenctid. Ac mae gan y plant hyn, yn arbennig y rhai sy'n fwyaf tebygol o barhau gyda'u cyfranogiad mewn troseddau pan yn oedolion, lawer o ffactorau risg yn aml yn eu bywydau.

Mae cysylltiad rhwng yr holl ffactorau risg, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd i ddylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd person ifanc yn cymryd rhan mewn troseddau. A bydd gwahanol ffactorau'n cael gwahanol effeithiau ar wahanol blant ar wahanol adegau yn eu bywydau.



Ffactorau risg

Mae'r ffactorau risg unigol yn cynnwys:

amlygiad i drosteddau, problemau ymddygiad, ymrwymiad isel i'r ysgol

Mae'r ffactorau risg teuluol yn cynnwys:

cael pedwar neu fwy o frodyr a chwiorydd, profiad o gael eu cam-drin, gwrthdaro teuluol

Mae ffactorau risg cymunedol neu ysgol yn cynnwys:

perfformiad cyffredinol yr ysgol, cyfraddau uchel o waharddiadau ysgol, argaeledd uchel alcohol a chyffuriau

Mae ffactorau risg cymdeithasol yn cynnwys:

anghyfiawnder cymdeithasol ac economaidd ehangach, gan gynnwys gwahaniaethu a rhagfarn sefydliadol

Anghyfartaledd ym maes cyfiawnder ieuencid

Mae ystadegau'n dangos bod grwpiau o bobl ifanc sydd wedi'u hymyleiddio yn cael eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder ieuencid.

Mae hyn yn cynnwys:

Plant a phobl ifanc Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Plant ag anghenion addysgol arbennig

Plant sy'n derbyn gofal

Plant sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim

Mae'n bwysig ein bod yn deall beth sy'n achosi'r anghyfartaledd hwn, gan gynnwys rôl rhagfarn sefydliadol a gwahaniaethu.

Defnyddio ffactorau risg: Er bod achosion troseddau yn gymhleth, mae ffactorau risg yn ein helpu i ddeall sut, lle a phryd i ymyrryd. Er enghraifft, efallai y byddwch yn cynnig cymorth i'r teulu pan fydd perthnasoedd wedi chwalu neu raglenni arbenigol cyffuriau ac alcohol mewn ardaloedd lle mae gan blant a phobl ifanc broblemau cam-drin sylweddau.

Cyfyngiadau defnyddio ffactorau risg: Er y gall ffactorau risg ein helpu i ddatblygu rhaglenni neu bolisïau wedi'u targedu, ni ellir eu defnyddio i adnabod yn awtomatig y plant neu bobl ifanc hynny sydd angen cymorth. Nid yw'r ffaith bod llawer o ffactorau risg yn eu bywyd yn golygu y bydd plentyn yn cymryd rhan mewn troseddau. Ac, yn yr un modd, bydd yna blant a phobl ifanc heb unrhyw ffactorau risg a fydd yn troseddu.

Felly, mewn achosion unigol, nid yw tystiolaeth am ffactorau risg yn disodli'r angen am asesiad gan ymarferydd medrus. Gallai gorddibynnu ar ymchwil ar ffactorau risg (er enghraifft, gan ddefnyddio rhestrau gwirio ffactorau risg) arwain at dybio'n anghywir bod angen cymorth ar blentyn neu berson ifanc. A gallai olygu nad yw eraill yn derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Beth sy'n diogelu plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau?

Yr hyn a wyddom: Mae yna lawer o bethau ym mywyd plentyn neu berson ifanc a allai olygu eu bod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn troseddau. Gallai hyn fod yn deulu sefydlog, cyflawnwr academaidd uchel neu fyw mewn cymuned lle mae cyfraddau isel o droseddau. Gelwir y pethau hyn yn aml yn ffactorau amddiffynnol.

Ffactorau amddiffynnol

Mae ffactorau amddiffynnol unigol yn cynnwys:

eisiau helpu eraill, cred mewn trefn foesol, meddu ar ymdeimlad o hyder yn eich gallu, bod yn wydn

Mae ffactorau amddiffynnol teuluol yn cynnwys:

rheolaeth dda ar y teulu, strwythur teulu sefydlog, perthynas agos gydag o leiaf un rhiant

Mae ffactorau amddiffynnol cymunedol neu ysgol yn cynnwys:

ymdeimlad cryf o gymuned leol, cyflawniad academaidd uchel, cyfraddau troseddu isel yn yr ardal leol.

Yr hyn mae angen i ni ei ganfod: Mae yna lawer llai o ymchwil ar ffactorau amddiffynnol o gymharu â'r ffactorau risg. Ac ni wyddom lawer am y ffordd mae'r ffactorau risg a'r ffactorau amddiffynnol yn cydweithio i ddylanwadu ar fywyd plentyn. Bydd gwahanol ffactorau amddiffynnol yn cael effeithiau gwahanol ar wahanol blant a phobl ifanc ar wahanol adegau yn eu bywydau.

Defnyddio ffactorau amddiffynnol: Gall defnyddio ffactorau amddiffynnol ein helpu i ddatblygu rhaglenni neu bolisiau wedi'u targedu, oherwydd maent yn ein helpu i ddeall pa bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf o gymryd rhan mewn troseddau a thrais.

Cyfyngiadau defnyddio ffactorau amddiffynnol: Ni ellir defnyddio ffactorau amddiffynnol i nodi'n awtomatig y plant hynny a allai fod â llai o risg. Efallai y bydd gan blant lawer o ffactorau amddiffynnol yn eu bywyd, ond maent yn parhau i fynd ymlaen i gymryd rhan mewn troseddau. Felly mewn achos unigol, nid yw tystiolaeth am ffactorau amddiffynnol yn disodli asesiad gan ymarferydd medrus. Gallai gorrddibynnu ar ffactorau amddiffynnol olygu na fydd rhai plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.



Pa ddulliau gweithredu sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau?

Beth sy'n gweithio?

Gwyddom fod tystiolaeth ddibynadwy sy'n dangos y gall ystod o ddulliau gweithredu helpu i leihau troseddau a thrais ieuenctid ac rydym wedi cynnwys rhai enghreifftiau yn y blychau isod.

CEFNOGI TEULUOEDD

Ymyriadau teulu cyfan:

Mae'r dulliau hyn yn gweithio gyda phlant a rhieni, ac maent yn helpu teuluoedd i ddatblygu sgiliau sy'n atgyfnerthu eu perthnasoedd. Maent yn cynnwys ymyriadau fel ymweliadau cartref a therapi teulu.

Hyfforddiant magu plant:

Mae'r dulliau hyn yn canolbwyntio ar y rhieni yn unig, yn eu haddysgu sut i atgyfnerthu eu perthnasoedd teuluol.

Gofal Maeth Therapiwtig:

Mae'r dulliau hyn ar gyfer plant nad ydynt yn gallu byw gartref ac maent yn cael eu lleoli mewn cartref maeth. Mae'r rhieni maeth yn cael eu hyfforddi i helpu'r plentyn i ddysgu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.

CEFNOGI YMDDYGIAD GWELL

Datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol:

Mae'r dulliau hyn yn datblygu galluedd pobl ifanc i ddeall a rheoli emosiynau, pennu a chyflawni nodau cadarnhaol, teimlo a dangos empathi at eraill, sefydlu a chynnal perthnasoedd positif a gwneud penderfyniadau cyfrifol. Ac fel y gwyddom, bydd y dulliau hyn yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn cael eu darparu mewn ysgolion, yn hytrach nac mewn lleoliadau eraill. Maent yn gweithio orau hefyd pan fyddant yn defnyddio therapi gwybyddol ymddygiadol (mae gwybodaeth bellach ar gael isod).

Therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT):

Mae'r dulliau hyn yn defnyddio therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT), sy'n fath o therapi siarad sy'n helpu pobl i newid y ffordd maent yn meddwl neu'n ymddwyn. Defnyddir CBT yn aml fel rhan o ymyriadau teulu, yn ogystal â gyda phlant a phobl ifanc yn unigol. A gwyddom, pan fydd CBT yn canolbwyntio ar reoli dicter a datrys problemau mewn perthnasoedd, gall helpu pobl sydd wedi cymryd rhan mewn troseddau i roi'r gorau i hynny.

Cynadleddau Cyfiawnder Adferol:

Mae'r dulliau hyn yn ymwneud ag atgyweirio'r niwed a achosir gan droseddau, drwy helpu pobl sydd wedi cyflawni troseddau i dderbyn canlyniadau eu gweithredoedd. Yn y cynadleddau hyn, mae dioddefwr yn esbonio effaith trosedd i'r person sydd wedi'i chyflawni. Yna maent yn cydnabod eu gweithredoedd ac yn cymryd cyfrifoldeb. Er y gwelwyd gostyngiad mewn aildroseddu o ddefnyddio hyn ar ôl i rywun droseddu, mae'r

canlyniadau wedi bod yn fwy cymysg pan ddefnyddir Cynadleddau Cyfiawnder Adferol mewn ysgolion neu ar gyfer sefyllfaoedd gwrth-fwlio.

Rhaglenni gwrth-fwlio:

Defnyddir y dulliau hyn amlaf mewn ysgolion, gyda'r nod o leihau bwlio. Maent yn aml yn targedu'r ysgol gyfan ac maent yn dueddol o ganolbwyntio ar annog plant i fod eisiau helpu eraill.

RHAGLENNI ATAL CYMUNEDOL

Dulliau sefyllfaol:

Mae'r dulliau hyn yn ceisio newid ardal leol lle mae troseddau'n dueddol o ddigwydd (er enghraifft, mewn siopau, parciau a thu allan i ysgolion). Addasu'r ardal, er enghraifft cyflwynir camerâu cylch cyfyng a goleuadau fel mesur i leihau troseddau.

Dulliau plismona:

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys plismona manau problemus, lle mae adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar yr ardaloedd bach lle mae troseddau'n dueddol o ddigwydd. Maent hefyd yn cynnwys plismona ar sail problemau, sy'n cynnwys edrych yn agos ar broblem benodol (er enghraifft, y defnydd o gyffuriau mewn cymuned) er mwyn datblygu'r datrysiad cywir (a allai gynnwys gweithio gyda gwasanaethau camddefnyddio sylweddau). Maent yn effeithiol er mwyn lleihau troseddau mewn ardaloedd lleol penodol.

Pa ddulliau sy'n addawol?

Mae tystiolaeth yn dangos y gallai'r dulliau hyn fod yn effeithiol, ond nid oes gennym ddigon o dystiolaeth i wybod. Weithiau nid yw'r dystiolaeth wedi bod yn ddigon trylwyr i ddangos mai'r dull fu'n gyfrifol am achosi newid cadarnhaol. Mae angen mwy o ymchwil arnom i wybod i ba raddau maent yn llwyddo i atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau. Bydd y Gronfa Gwaddol Ieuentid yn gweithio i wella'r dystiolaeth honno.

MENTORA

Mentora:

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys person hŷn a mwy profiadol yn cynnig cymorth ac arweiniad i berson ifanc dros amser. Gall mentora gael effaith gadarnhaol ar blentyn neu berson ifanc, ond gall amrywio o ran ansawdd. Mae'n debygol o fod fwyaf effeithiol pan fydd mentoriaid yn gwirfoddoli ar gyfer datblygiad proffesiynol. Ac i'r rhai sy'n cael eu mentora, mae'r rhaglenni hyn yn fwyaf llwyddiannus pan fyddant yn canolbwyntio ar gymorth emosiynol ac eiriolaeth.

MOMENTAU ADDYSGU

Momentau addysgu:

Mae'r dulliau hyn yn canolbwyntio ar geisio newid ymddygiad ar 'foment addysgu'. Gallai hynny gynnwys cefnogi plentyn neu berson ifanc ar ôl iddynt orfod mynd i'r ysbty oherwydd ymosodiad treisgar. Er y canfuwyd bod y dulliau hyn yn addawol, mae angen gwerthusiad pellach arnom oherwydd mae rhai treialon wedi cael problemau gyda phobl yn eu gadael yn gynnar, neu nid ydynt wedi bod yn ddigon cadarn i ddangos bod y dulliau hyn yn gweithio.

Gwyrriad wedi'i arwain gan yr heddlu:

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys yr heddlu'n cymryd camau i ganfod cymorth i blant a phobl ifanc maent wedi dod i gysylltiad â hwy. Gallai hyn fod oherwydd eu bod wedi cymryd rhan mewn troseddau lefel isel, er enghraifft difrod troseddol, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ddwyn o siopau. Mae gwyrriad yn golygu nad yw'r bobl ifanc hynny'n derbyn cosbau ffurfiol, fel rhybudd gan yr heddlu neu gael eu herlyn, ond maent yn cael eu dargyfeirio at sefydliadau cymunedol a all ddarparu cymorth iddynt. Mae angen mwy o dystiolaeth arnom i ganfod pa raglenni sydd orau ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi dod i gysylltiad â'r heddlu.

YMYRIADAU YN YR YSGOL

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

Mae'r dulliau hyn yn canolbwyntio ar atal ymddygiad aflonyddgar yn yr ystafell ddosbarth. Mae fel arfer yn cynnwys hyfforddi athrawon i'w helpu i adlewyrchu ar eu sgiliau yn yr ystafell ddosbarth a rhoi cynnig ar ddulliau newydd.

YMYRIADAU CHWARAEON

Ymyriadau chwaraeon:

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys rhoi cyfle i blant a phobl ifanc fod yn rhan o dîm neu hyfforddi gyda phobl eraill. Maent yn dangos addewid fel ffordd o gael plant i ymgysylltu mewn gweithgareddau newydd a rhoi cyfle iddynt "ddechrau stopio" unrhyw gyfranogiad mewn troseddau. Ond mae'r dystiolaeth yn dangos i ni, os yw plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon heb unrhyw raglenni cymorth ychwanegol, nid oes cyswllt â lefelau is o droseddau.

Lle mae canlyniadau cymysg?

Pan geisiodd yr ymchwilyr ddeall pa mor effeithiol yw rhai dulliau, maent weithiau'n canfod bod canlyniadau'n gymysg. Mae hyn yn golygu, ar gyfer dulliau fel clybiau ar ôl ysgol neu swyddogion yr heddlu mewn ysgolion, mae rhywfaint o ymchwil yn dangos y gallai fod effaith gadarnhaol. Ond mae astudiaethau eraill wedi canfod nad ydynt yn lleihau cyfranogiad pobl ifanc mewn troseddau a thrais. Mae angen gwaith gwerthuso pellach ar y prosiectau hyn i weld i ba raddau maent yn llwyddo.

YMYRIADAU YN YR YSGOL

Clybiau ar ôl ysgol:

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys gweithgareddau sydd wedi'u targedu at blant a allai fod adref ar eu pen eu hunain neu sydd heb unrhyw beth i'w wneud ar ôl yr ysgol. Mae rhai astudiaethau wedi canfod eu bod yn helpu i leihau troseddau, tra bod eraill wedi canfod eu bod yn arwain at gynnydd mewn gwirionedd.

Swyddogion yr heddlu mewn ysgolion:

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys swyddogion yr heddlu yn mynd i ysgolion i helpu gyda gwaith atal troseddau a chasglu gwybodaeth. Nid oes llawer o dystiolaeth i brofi bod hyn yn effeithiol. Pan fydd astudiaethau wedi'u cynnal, nid ydynt wedi bod yn ddigon trylwyr i ni allu llunio unrhyw gasgliadau

Dulliau yn yr ysgol i leihau trais rhywiol mewn perthnasoedd:

Mae'r dulliau hyn yn cwmpasu rhaglenni addysgol ac ar sail sgiliau sy'n ceisio lleihau trais rhywiol. Mae rhai astudiaethau yn dangos eu bod yn gwella gwybodaeth a sgiliau pobl ifanc, tra bod ymchwil arall wedi methu canfod unrhyw dystiolaeth eu bod yn helpu i leihau trais mewn perthnasoedd.

ADDYSG AMGEN

Addysg Amgen (er enghraifft, Unedau Cyfeirio Disgyblion):

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys addysg a gynlluniwyd ar gyfer pobl ifanc na allant fynd i ysgolion traddodiadol. Mewn rhai achosion mae hyn am eu bod wedi'u gwahardd. Mae rhywfaint o waith ymchwil wedi dangos nad yw Addysg Amgen yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau, tra bod astudiaethau mwy diweddar wedi dangos y gallai fod effaith addawol ar leihau ymddygiad ymosodol.

ÔL-OFAL AR GYFER POBL IFANC SY'N AIL YMUNO Â CHYMUNEDAU

Ôl-ofal ar gyfer pobl ifanc sy'n ail-ymuno â chymunedau:

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys cymorth i bobl ifanc sy'n ail-ymuno â'u cymunedau ar ôl treulio amser mewn canolfan ddiogel. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai ôl-ofal weithio gyda rhai pobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd wedi bod cymryd rhan mewn troseddau treisgar. Ond nid yw mor effeithiol i eraill, gan gynnwys i bobl ifanc o dan 17 oed.

Beth nad yw'n gweithio?

Mae tystiolaeth yn dangos nad yw bwt-camp arddull milwrol ac ymdrechion i ddychryn plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau yn gweithio, a hefyd, gallent wneud pethau'n waeth hyd yn oed. Dylid eu hosgoi.

BŴT-CAMP

Bwt-camp:

Mae'r dulliau hyn wedi'u hanelu at rwystro pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau drwy raglenni arddull milwrol neu bwt-camp. Mae tystiolaeth gref nad yw'r rhain yn cael llawer o effaith, os o gwbl.

ATAL

Atal a Scared Straight:

Mae'r dulliau hyn yn ceisio dychryn pobl ifanc rhag troseddu drwy ddefnyddio tactegau dychryn. Mae ymchwil wedi dangos dro ar ôl tro nad yw ymyriadau, gyda Scared Straight yn un o'r rhai amlycaf, yn gweithio. Mewn rhai achosion, canfuwyd eu bod hyd yn oed yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn troseddau.

Gwybodaeth bellach

Yn y Gronfa Gwaddol Ieuentid, rydym wedi canolbwyntio ar gynorthwyo plant 10 i 14 oed, a'u cyrraedd cyn iddynt gymryd rhan mewn troseddau a thrais. Dyna pam fod yr astudiaethau rydym wedi'u datblygu yn y wybodaeth hon yn cynnwys dulliau sydd wedi'u hanelu at y grŵp oedran hwn. Ac rydym wedi edrych ar y graddau y mae'r dulliau hyn yn llwyddo i leihau bob trosedd, yn hytrach na dim ond troseddau treisgar.

Cyfyngiadau'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym

Mae llawer o'r dystiolaeth fwyaf cadarn ar rwystro pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau yn dod o'r tu allan i'r DU – o'r UD yn bennaf yn ogystal â gwledydd eraill. Mae'r sylfaen dystiolaeth yn y DU ar gam cymharol gynnar. Mae llawer o'r dulliau yr ydym wedi'u hastudio yn gyffredinol iawn. Mae hynny hefyd yn golygu nad oes diffiniadau a dderbynnir yn eang o'r gwahanol fathau o ymyriadau.

Mae llawer o astudiaethau yn canolbwyntio ar newid ymddygiad yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu ei bod yn amhosibl dweud a yw cyfranogiad mewn rhaglen yn arwain at ostyngiadau parhaus mewn troseddau dros gyfnod hwy o amser.

Pam fod ein gwaith yn bwysig

Mae'n amlwg bod angen mwy o dystiolaeth, o ansawdd gwell, ynglŷn â beth sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau. Ac mae angen i'r dystiolaeth honno fod yn hawdd ei deall ac yn hawdd i'w defnyddio. Dyna pam fod ein gwaith mor bwysig. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y dystiolaeth ar gael i bawb, drwy greu ein Pecyn Offer a defnyddio papurau briffio defnyddiol. A byddwn yn eich cynorthwyo i ddefnyddio'r dystiolaeth yn eich gwaith, er mwyn i chi allu sicrhau newid i blant a phobl ifanc.

Yn ystod y deng mlynedd nesaf, gyda'ch cymorth chi, byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a datblygu mudiad i roi'r wybodaeth hon ar waith yn ymarferol. Gyda'n gilydd, gallwn wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau maent yn haeddu eu derbyn.

